

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

**Cyhoeddwyd:** Mawrth 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 715A2014

# Statws yr adroddiad

---

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk).

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Sara Utley, Gabrielle Smith a Kate Febry.

# Cynnwys

---

Er bod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth lefel uchel ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal, mae angen gwneud gwaith pellach i gryfhau trefniadau cynllunio gwasanaethau a monitro perfformiad, ac i wella'r ddealltwriaeth o'r galw a'r modd y caiff staff eu rhoi ar waith.

---

## Adroddiad cryno

Crynodeb	4
Ein prif ganfyddiadau	5
Mae'r gwasanaeth nyrsio ardal yn rhan annatod o weledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, ac mae'r llinellau atebolrwydd yn glir o fewn ardaloedd. Fodd bynnag, ni wyddys eto beth yw gofynion manwl y gweithlu.	6
Mae gan y gwasanaeth nyrsio ardal adnoddau da, ond prin yw'r ddealltwriaeth o'r galw am y gwasanaeth, ac mae angen rheolaeth well ar alw o natur amhriodol	7
Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu na all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ei staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol	8
Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn frwd yn ffora nyrsio ardal Cymru gyfan, ond nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro gwasanaethau nyrsio ar lefel gorfforaethol wedi'u datblygu'n ddigonol	9
Argymhellion	10
<hr/> <h2>Atodiadau</h2>	
Dull archwilio	12
Cyflwyno'r prif ganfyddiadau	14

# Adroddiad cryno

---

## Crynodeb

1. Mae nyrsys ardal ymhlith prif ddarparwyr gofal yn y gymuned. Maent yn chwarae rhan hollbwysig yn y tîm gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, gan ymweld â chleifion yn y gymuned ac yn eu cartrefi eu hunain a darparu gofal iddynt. Un o rolau eraill nyrsys ardal yw gweithio gyda chleifion a'u perthnasau i'w helpu i reoli eu cyflwr a'u triniaeth, gan osgoi cael eu derbyn neu ddychwelyd i'r ysbyty heb fod angen.
2. Gall llwyth achosion cleifion nyrs ardal gynnwys ystod oedran eang ynghyd ag amrywiaeth sylweddol o broblemau iechyd, gan gynnwys cleifion â salwch terfynol. Pobl oedrannus a bregus yw rhan helaeth o'r cleifion. Hyd y gellir rhagweld, mae'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn debygol o gynyddu yn sgil poblogaeth oedrannus sy'n tyfu, arosiadau byrrach yn yr ysbyty a'r ymdrech i drin mwy o gleifion, a chanddynt anghenion gofal cymhleth, yn y gymuned yn lle'r ysbyty. Ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd), disgwylir i nifer y bobl 85 oed a hŷn fwy na dyblu erbyn 2036<sup>1</sup>, ac mae nifer cynyddol o bobl hŷn yn byw gydag un neu fwy o gyflyrau cronig.
3. Mae model rheoli cyflyrau cronig Llywodraeth Cymru<sup>2</sup> a'i strategaethau gofal sylfaenol a chymunedol<sup>34</sup>, yn 2010 ac yn 2014, yn nodi'r angen i newid cydbwysedd gwasanaethau ar sail system gyfan, ac i ddarparu mwy o ofal mewn lleoliadau yn y gymuned. Gwledigaeth newydd Llywodraeth Cymru yw cael tîm amlddisgyblaethol integredig sy'n canolbwyntio ar gydgyfylltu gwasanaethau cymunedol ar draws ardaloedd lleol i unigolion ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth.
4. Yn ein gwaith blaenorol ar gyflyrau cronig<sup>5</sup> canfuwyd y canlynol:
  - mai ychydig o fyrddau iechyd sydd â dealltwriaeth dda o gapasiti neu allu eu gweithlu cymunedol, gan ei gwneud hi'n anodd targedu hyfforddiant a datblygiad er mwyn symud gofal tua'r gymuned;
  - bod rhai byrddau iechyd wedi ad-drefnu gwasanaethau nyrsio ardal er mwyn darparu'r capasiti sydd ei angen i 'symud' gofal i'r gymuned a chydgyfylltu gofal; ac
  - y gellid cydgysylltu gwasanaethau cymunedol ar gyfer y cleifion mwyaf bregus yn well, gan fod llawer o'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys nyrsio ardal, yn darparu'r un gofal, neu ofal tebyg i'r garfan hon o gleifion.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, *Local Authority Population Projections for Wales, 2011-based Variant Projections (SDR 165/2013)*, 2013 (Saesneg yn unig)

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, *Cynllun i Wella Iechyd a Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru: Model a Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu*, 2007

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, *Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi*, 2010

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, *Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018*, 2014

<sup>5</sup> *Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru - Diweddariad*, Mawrth 2014

- 
5. I fodloni'r heriau hyn, bydd angen gweithlu wedi'i gydgyssylltu'n briodol, a chanddo adnoddau a sgiliau priodol, sydd wedi'i roi ar waith mewn modd effeithiol er mwyn darparu gofal yn y gymuned. Gyda'r cynnydd yn y galw am wasanaethau a'r cyfyngiadau parhaus ar arian, mae angen i fyrddau iechyd ddeall y defnydd a wneir o'r gwasanaeth nyrsio ardal a sut mae'n rhan o ddatblygiad cyffredinol gwasanaethau cymunedol.
  6. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal adolygiad ar raddfa Cymru o wasanaethau nyrsio ardal yn seiliedig ar wybodaeth fanwl a gasglwyd o'r holl fyrddau iechyd. Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng Mawrth 2014 ac Awst 2014, ac anelai i ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol yn rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?' Nodir ein dull archwilio yn [Atodiad 1](#).
  7. Ar adeg yr archwiliad, roedd gwasanaeth nyrsio ardal<sup>6</sup> y Bwrdd Iechyd yn cynnwys 201 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn. Roedd yr aelodau hyn o staff wedi'u trefnu'n 25 o dimau ar draws pedair ardal er mwyn gofalu am oddeutu 5,300 o gleifion. Roedd y gwasanaeth yn gweithredu rhwng 8.30am a 8.30pm fel arfer, gyda'r tîm nos yn darparu gofal ar draws holl ardal y Bwrdd Iechyd o 8.30pm tan 7.00am. Rhwng 7.00am ac 8.30am, roedd y gwasanaeth yn dibynnu ar drefniadau anffurfiol rhwng y timau i lenwi'r 'bwllch'. Ers ein hadolygiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ad-drefnu'r gwasanaeth nyrsio ardal drwy gynyddu maint y timau a chael llai ohonynt, drwy ostwng nifer yr aelodau uwch o staff nyrsio ardal, a thrwy greu modelau gwaith newydd sy'n galluogi darpariaeth lawn bob awr o'r dydd, a phob dydd o'r wythnos.

## Ein prif ganfyddiadau

8. Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella'r gwasanaeth nyrsio ardal yn rhan o'r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau cymunedol, prif gasgliad yr adolygiad yw bod angen gwneud gwaith pellach i gryfhau cynllunio gwasanaethau a monitro perfformiad, a er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o'r galw a'r modd y caiff staff eu rhoi ar waith.
9. Ceir crynodeb o'n prif ganfyddiadau yn y tabl isod. Nodir y dystiolaeth fanwl sy'n sail i'r canfyddiadau hyn yn [Atodiad 2](#) ar ffurf cyflwyniad tebyg i'r un a roddwyd i arweinwyr a phenaethiaid nyrsio'r ardaloedd lleol ar 19 Rhagfyr 2014. Bydd y setiau data sy'n sail i'r canfyddiadau archwilio yn cael eu rhannu â'r Bwrdd Iechyd.

---

<sup>6</sup> Bydd staff nyrsio ardal yn gweithio mewn timau sy'n cynnwys nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Nyrs gofrestredig gyda chymhwyster ymarferydd arbenigol mewn nyrsio ardal yw'r arweinydd tîm, a gyflogir fel arfer ym mand cyflog 6 neu 7. Nyrsys cofrestredig yw nyrsys staff cymunedol. Gallai'r rhain feddu ar yr un cymhwyster ymarferydd arbenigol â'r arweinwydd tîm (neu beidio). Caiff nyrsys staff cymunedol eu cyflogi ym man cyflog 5 neu 6. Caiff gweithwyr cymorth gofal iechyd eu cyflogi ym mandiau cyflog 2, 3 neu 4, yn dibynnu ar eu sgiliau a'u cymwysterau. Drwy gydol yr adroddiad, defnyddir y term 'staff nyrsio ardal' i gynnwys yr holl staff nyrsio cofrestredig a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth nyrsio ardal. Cyfeirir yn benodol at 'nyrs ardal' wrth drafod staff sy'n gweithredu fel arweinwyr tîm/deiliaid llwyth achosion.

---

**Rhan 1 – Mae'r gwasanaeth nyrsio ardal yn rhan annatod o weledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, ac mae'r llinellau atebolrwydd yn glir o fewn ardaloedd. Fodd bynnag, ni wyddys eto beth yw gofynion manwl y gweithlu.**

**Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir i symud gwasanaethau tua'r gymuned, ac mae nyrsio ardal yn rhan annatod o'r weledigaeth hon:**

- Yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd, nodir ei ymrwymiad i ddarparu mwy o ofal mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol, a lleihau'r angen i dderbyn cleifion yn fewnol i'r ysbyty hyd y gellir.
- Er mwyn datblygu ei gynllun tymor canolig integredig, defnyddiodd y Bwrdd Iechyd gwmni allanol i adolygu nifer o wasanaethau, gan gynnwys nyrsio ardal. Y nod oedd chwilio am gyfleoedd i wella ansawdd ac effeithlonrwydd, a oedd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cynllun.
- I gefnogi gweithredu'r cynllun tymor canolig integredig, mae'r isadran gymunedol yn datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol, ac mae nyrsio ardal yn rhan annatod o'r weledigaeth hon.
- Bu'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n frwd â staff nyrsio ardal a rhanddeiliaid eraill er mwyn trafod cynigion i leihau nifer y timau a chysoni'r timau â chlystyrau meddyg teulu, gan gadw cysylltiadau â phractisau meddyg teulu unigol.

**Nid yw cynllun manwl ar gyfer gweithlu'r gwasanaeth nyrsio ardal wedi cael ei ddatblygu eto, yn sail i weledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol:**

- Ym manyleb y gwasanaeth nyrsio ardal, a gyhoeddwyd yn 2010, nodir yn glir beth yw rôl y gwasanaeth nyrsio ardal a'i gyd-destun oddi mewn i wasanaethau cymunedol a nyrsio ehangach; bydd angen ei diweddar i gefnogi'r weledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol.
- Roedd yr adolygiad allanol o arferion a strwythurau gweithredol yn 2013 yn sail ar gyfer cynlluniau'r Bwrdd Iechyd i ad-drefnu'r timau nyrsio ardal. Yn ogystal â hynny, ffurfiolodd fodelau gwaith i gau'r bwlch 1.5 awr mewn darpariaeth gwasanaeth.
- Mae cynllun manwl ar gyfer y gweithlu i gefnogi gweledigaeth y Bwrdd Iechyd i symud gwasanaethau tua'r gymuned yn dal heb ei ddatblygu. Fodd bynnag, yn sgil gwaith diweddar i ad-drefnu'r timau bydd nifer y timau a'r staff nyrsio ardal uwch yn gostwng wrth i'r Bwrdd Iechyd geisio cyfuno sgiliau arwain a rheoli'r aelodau hyn o staff.

**Mae'r strwythur ardaloedd lleol yn darparu llinellau atebolrwydd rheolaethol a phroffesiynol clir:**

- mae'r llinellau atebolrwydd rheolaethol yn glir o fewn ardaloedd, ac mae arweinyddiaeth broffesiynol a chlinigol wedi'i sefydlu i gefnogi'r staff;
- mae cyfarfodydd rheolwyr ac ardal rheolaidd yn gwella'r cyfathrebu, yn cynorthwyo atebolrwydd ac yn creu awyrgylch cefnogol i'r arweinwyr tîm; ac
- mae'r gwaith diweddar i ad-drefnu timau nyrsio ardal yn cynnig cyfle i gytuno ar fodel newydd yr arweinwyr tîm i gefnogi arweinyddiaeth a rheolaeth gyson ar raddfa leol.

---

## **Rhan 2 – Mae gan y gwasanaeth nyrsio ardal adnoddau da, ond prin yw'r ddealltwriaeth o'r galw am y gwasanaeth, ac mae angen rheolaeth well ar alw o natur amhriodol**

### **Prin yw'r ddealltwriaeth o'r galw am y gwasanaethau nyrsio ardal:**

- Nid oes unrhyw systemau ar waith i gasglu gwybodaeth am nifer a natur atgyfeiriadau mewn modd cyson. Mae'r meini prawf atgyfeirio wedi dyddio, ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.
- Nid yw systemau gwybodaeth yn cefnogi adolygiadau systematig o lwythi achos, gydag adolygiadau blaenorol o lwythi achos yn dibynnu ar gofnodion papur llafurddwys.
- Yn gyffredin â byrddau iechyd eraill yng Nghymru, nid oes unrhyw offer safonedig yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i fesur dibyniaeth a chymhlethdod cleifion. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn helpu i ddatblygu a phrofi offeryn Cymru gyfan i fesur cymhlethdod anghenion gofal cleifion.

### **Mae angen gwella'r rheolaeth ar y galw am wasanaethau nyrsio ardal:**

- mae ffurflen atgyfeirio safonol ar gael, ond nid yw'n cael ei defnyddio'n aml, ac mae hynny'n cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i fonitro'r galw;
- ystyrir bod cyfran sylweddol o'r atgyfeiriadau i'r gwasanaeth nyrsio ardal yn amhriodol, er bod meini prawf atgyfeirio clir wedi'u sefydlu;
- ni chaiff atgyfeiriadau amhriodol eu hailgyfeirio bob tro, a bydd nifer fach o atgyfeiriadau amhriodol yn arwain at ofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf; ac
- ystyrir bod gwybodaeth atgyfeirio'n briodol ar y cyfan, ond ceir bylchau mewn gwybodaeth sylfaenol.

### **O gymharu â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, ceir adnoddau da o fewn y gwasanaeth nyrsio ardal ar hyn o bryd, o ran y niferoedd a'r gymysgedd o raddau ymhlith y staff:**

- Mae lefelau staffio yn seiliedig ar ddyraniadau hanesyddol, ond yn destun adolygiad blynyddol.
- Mae nifer y staff nyrsio cymuned sydd ar gael ar gyfer y boblogaeth o gleifion cofrestredig ar ei uchaf yng Nghymru.
- Mae nifer y staff nyrsio ardal yn gymharol debyg i'r nifer yn 2009.
- Mae'r gymysgedd o raddau wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf, gyda gostyngiad yn nifer yr aelodau uwch o staff nyrsio ardal (Bandiau 6 a 7) a chynnydd yn niferoedd y nyrsys staff cymunedol.
- Ar adeg yr archwiliad, roedd y gyfradd swyddi gwag ar gyfer staff nyrsio ardal yn is na chyfartaledd Cymru.
- Cafwyd cynnydd cymedrol yng nghostau cyflog staff nyrsio ardal parhaol dros y pedair blynedd diwethaf; cyfran fechan iawn o gyfanswm y bil cyflogau yw'r costau cyflog ar gyfer staff dros dro, ond cafwyd gostyngiad sylweddol i'r costau hyn dros yr un cyfnod.

---

**Rhan 2 – Mae gan y gwasanaeth nyrsio ardal adnoddau da, ond prin yw'r ddealltwriaeth o'r galw am y gwasanaeth, ac mae angen rheolaeth well ar alw o natur amhriodol**

**Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwmo i sicrhau bod gan staff fynediad at hyfforddiant, a bod staff yn gwneud defnydd o'r sgiliau y maent wedi derbyn hyfforddiant ar eu cyfer, ond mae'r lefelau cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael:**

- Mae'r Bwrdd lechyd yn cynnal dadansoddiad blynyddol o anghenion hyfforddi, ond nid yw'r holl aelodau o staff yn derbyn arfarniad nac adolygiad o'u cynllun datblygu.
- Mae'r gyfradd ar gyfer cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael.
- Gall staff nyrsio ardal cyflogedig fanteisio ar amser cyflogedig wedi'i ddiogelu ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn annog goruchwyliaeth glinigol. Mae'n ystyried hyn yn hollbwysig ar gyfer perfformiad y tîm ac, yn rhan o'r model arweinwyr tîm newydd, ar gyfer cynlluniau i ddatblygu fframwaith ffurfiol.
- O'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, mae staff nyrsio ardal fel arfer yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant eu hyfforddi ar eu cyfer.
- Mae'r gyfran o staff nyrsio ardal a chanddynt gymhwyster ymarferydd arbenigol (CYA) gyda'r uchaf yng Nghymru.

**Rhan 3 – Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu na all y Bwrdd lechyd fod yn sicr bod ei staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol**

**Ceir amrywiaeth anesboniadwy yn y modd y caiff timau nyrsio ardal eu rhoi ar waith, ac mae'r Bwrdd lechyd yn dechrau mynd i'r afael â hyn:**

- mae'r gyfran o amser a dreulir yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion gyda'r isaf yng Nghymru, a'r amser a dreulir ar weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chleifion gyda'r uchaf;
- mae'r gyfran o amser a dreulir gyda chleifion ac yn cyflawni gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chleifion, yn amrywio'n fawr o fewn ardaloedd a rhyngddynt, ac ar draws ac o fewn y graddau, ac mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio i ymdrin â hyn;
- ar y cyfan, amser teithio sydd i gyfrif am lai na phumed ran o'r amser a dreulir yn cyflawni gweithgarwch yn gysylltiedig â chleifion, tra bo'r amser teithio cyfartalog fesul cyswllt â chlaf yn amrywio ar draws y timau, o fewn a rhwng ardaloedd; ac
- ymddengys fod y gymysgedd o staff o raddfeydd gwahanol a ddefnyddir yn ystod yr wythnos yn gost-effeithiol, gyda staff Band 7 yn cael eu defnyddio ar ddiwrnodiau gwaith yn unig.

**Mae'r staff wedi'u dosbarthu'n anwastad ar draws y llwythi achos gydag amrywio anesboniadwy rhwng y timau o ran nifer y cleifion yr ymwelwyd â hwy. Yn ogystal â hyn, roedd gormod o staff yn gweithio mwy na'u horiau contract:**

- mae'r llwyth gwaith, o'i fesur yn ôl nifer y cleifion fesul staff nyrsio ardal, yn amrywio ar draws y timau o fewn a rhwng ardaloedd;
- cynhaliodd y staff nyrsio ardal fwy na 6,700 o ymweliadau neu gysylltiadau â chleifion yn ystod yr wythnos archwilio ond cafwyd llawer o amrywio anesboniadwy rhwng y timau o ran nifer y cleifion yr ymwelwyd â hwy a'r amser a gymerwyd i ymdrin â hwy; a
- gweithiodd ychydig o dan hanner y staff nyrsio ardal fwy na'u horiau gwaith contract.



---

**Rhan 3 – Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu na all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ei staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol**

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gryfhau trefniadau a systemau er mwyn cefnogi'r rheolaeth ar y llwyth achosion:**

- Nid yw'r systemau cyfredol yn rhoi trosolwg i arweinwyr tîm o'u llwyth achosion, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau yn ôl y bwriad neu mewn modd amserol.
- Anaml iawn y bydd llwythi achosion yn cau. Yn hytrach, byddant yn ymestyn i gynnwys cleifion newydd.
- Mae nifer yr ymweliadau â chleifion fel arfer wedi'u cyfyngu i bedwar ymweliad dros gyfnod o 24 awr, ond adroddodd bron hanner y timau y gall nifer yr ymweliadau fod yn ddiderfyn.
- Mae rhai timau'n gofalu am gleifion sydd wedi cofrestru â phractisau meddyg teulu y tu allan i ffiniau'r Bwrdd Iechyd ond mae'r gwasanaeth nyrsio ardal wedi gweithio gyda gwasanaethau cyfagos er mwyn dod i gytundeb ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ofal y cleifion hyn.
- Mae rhai cleifion yn aros ar y llwyth achosion am amser hir, ac ni fydd rhai o'r cleifion hyn ond yn derbyn ymweliadau blyneddol.
- Gofelir am y rhan fwyaf o gleifion yn eu cartrefi eu hunain, ond nid yw pob claf yn gaeth i'w gartref.

**Mae llawer o gleifion yn derbyn amryw o wasanaethau gofal iechyd yn y gymuned, ac mae'r timau nyrsio ardal yn cydgysylltu neu'n rheoli achosion ar gyfer mwyafrif y gofal hwn.**

**Rhan 4 – Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn frwd yn ffora nyrsio ardal Cymru gyfan, ond nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro gwasanaethau nyrsio ar lefel gorfforaethol wedi'u datblygu'n ddigonol**

**Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau sylfaenol ar waith i fonitro gwasanaethau nyrsio ardal, ond mae'n cydnabod nad oes unrhyw ddangosyddion penodol ar gyfer perfformiad nac ansawdd a diogelwch, ac yn gweithio i fynd i'r afael â hyn:**

- Nid oes cytundeb o hyd ynghylch mesurau neu ddangosyddion perfformiad mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch y gwasanaeth nyrsio ardal.
- Nid yw'r mecanweithiau i gasglu gwybodaeth am brofiadau neu ganlyniadau cleifion, ac adrodd ar hynny, wedi'u datblygu'n ddigonol. Dibynnir yn hytrach ar waith monitro cwynion a digwyddiadau.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth fod y Bwrdd na'i bwyllgorau'n trafod perfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal a'r modd y mae'n cyfrannu at wella canlyniadau cleifion, neu at symud gofal o leoliadau aciwt i leoliadau yn y gymuned.

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu'n frwd at ddatblygu gwasanaethau nyrsio ardal ar raddfa genedlaethol, ac mae'r arweinwyr tîm yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth:**

- mae staff nyrsio uwch yn cyfrannu'n frwd at fforymau Cymru gyfan yn gysylltiedig â'r gwasanaeth nyrsio ardal, a rhennir gwybodaeth drwy'r cyfarfodydd arweinwyr tîm misol;
- cynhelir cyfarfod o'r arweinwyr tîm bob mis, lle rhennir gwersi a ddysgwyd yn sgil cwynion a digwyddiadau, a lle ceir cyfle i rannu arfer da a chyd-drafod materion; a
- mecanwaith ar gyfer rhannu yw'r cyfarfodydd tîm, ac maent wedi bod yn hollbwysig er mwyn llwyddo i gyflawni'r cynlluniau diweddar i ail-ddylunio'r gwasanaeth, drwy feithrin ymgysylltu a dealltwriaeth o'r angen am newid ymhlith aelodau'r tîm.

---

## Argymhellion

### Strategaeth a chynllunio

- A1 Mae'r fanyleb nyrsio ardal yn bum mlwydd oed erbyn hyn. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- ddiweddarau'r fanyleb er mwyn adlewyrchu ei weledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol a'r newidiadau diweddar i strwythur y timau; ac
  - achub ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth ymhlith darpar atgyfeirwyr a rhanddeiliaid eraill allweddol ynghylch rôl y gwasanaethau nyrsio ardal, o ran darparu gofal i gleifion a allai fod yn 'gaeth i'w cartrefi', a'r ffaith y gellir trin cleifion mewn lleoliadau gofal eraill, lle bo hynny'n briodol.

### Rheoli'r galw

- A2 Mae'r dull o gasglu a chofnodi gwybodaeth am atgyfeiriadau yn anghyson, sy'n cyfyngu ar y ddealltwriaeth o'r galw, ac nid yw'r systemau gwybodaeth cyfredol yn cefnogi rheolaeth effeithiol ar y llwyth achosion. Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu systemau addas i'r diben er mwyn casglu gwybodaeth mewn modd cyson am nifer a natur yr atgyfeiriadau, ynghyd â gwybodaeth am lwythi achos unigol, er mwyn cefnogi gwaith rheoli cleifion a gwaith monitro ac adrodd.

- A3 Nid yw pob atgyfeiriad i'r gwasanaeth nyrsio ardal yn briodol, ac mae ansawdd yr wybodaeth atgyfeirio weithiau'n wael. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- ddefnyddio'r meini prawf atgyfeirio y mae wedi'u llunio a chyfleu'r rhain wrth y rhai sy'n atgyfeirio;
  - llunio rhestr wirio glir o'r wybodaeth sydd ei hangen gan atgyfeirwyr i gefnogi dogfennau newydd yr Asesiad Integredig; a
  - chynnal archwiliad rheolaidd o gydymffurfiaeth â'r meini prawf a'r rhestr wirio o wybodaeth, a thargedu'r rhai sy'n atgyfeirio'n amhriodol neu nad ydynt yn darparu gwybodaeth ddigonol.

### Defnydd effeithiol

- A4 Yr oedd gwahaniaethau mawr yn y modd yr oedd staff nyrsio ardal yn treulio'u hamser. Er mwyn cefnogi defnydd effeithiol o'i adnodd nyrsio ardal, dylai'r Bwrdd lechyd:
- geisio deall pam bod staff ar rai graddau yn treulio llai o amser yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion;
  - archwilio'r amrywio mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â chleifion ac ystyried a oes cyfleoedd i ryddhau amser i roi gofal uniongyrchol i gleifion;
  - cytuno ar drothwyon priodol er mwyn monitro'r amser a dreulir yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion, a defnyddio canfyddiadau'r adolygiad hwn yn llinell sylfaen ar gyfer monitro cynnydd tuag at dreulio mwy o amser wyneb yn wyneb â chleifion;
  - asesu a gafwyd y newidiadau a fwriadwyd yn sgil cysoni'r timau, o ran cyfuno sgiliau arwain a rheoli; ac
  - asesu effaith cau'r bwlch o 1.5 awr mewn darpariaeth gwasanaeth ar ofal cleifion.

---

### Cysoni adnoddau â'r llwyth achosion

- A5 Mae'r llwyth gwaith yn amrywio rhwng timau. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- gymharu'r llwythi gwaith rhwng y timau er mwyn gweld a yw'r achosion o amrywio wedi lleihau yn sgil cwblhau'r newidiadau i strwythur y timau; a
  - defnyddio offeryn dibyniaeth Cymru gyfan, pan fydd ar gael, er mwyn cynnal adolygiad i ganfod a yw niferoedd a sgiliau'r gweithlu'n cyd-fynd ag anghenion y llwyth achosion.

### Monitro a gwella gwasanaethau

- A6 Prin yw'r wybodaeth am berfformiad cyffredinol y gwasanaeth nyrsio ardal. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- gytuno ar fesurau perfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am weithgarwch, ansawdd a diogelwch y gwasanaeth, megis cydymffurfio ag arfarniadau a hyfforddiant statudol a gorfodol, profiad y defnyddiwr gwasanaeth, canlyniadau cleifion, costau'r gwasanaeth a'r modd y mae nyrsio ardal yn cyfrannu at symud gofal o leoliadau aciwt i leoliadau yn y gymuned; a
  - datblygu a chytuno ar ddull cynhwysfawr o adrodd ar y mesurau hyn i'r Bwrdd neu ei bwyllgorau o leiaf ddwywaith y flwyddyn.
- A7 Nid oedd yr holl staff wedi derbyn arfarniad nac adolygiad o'u cynllun datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf, ac mae'r lefelau cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- geisio deall y ffactorau sy'n atal cydymffurfio â'r broses arfarnu, a hefyd â hyfforddiant statudol a gorfodol, a gweithredu dulliau priodol o ddatrys hyn;
  - gweithio gyda nyrsys arweiniol ac arweinwyr tîm ardaloedd lleol er mwyn defnyddio dull cyson o nodi a chofnodi'r hyfforddiant statudol a gorfodol sydd ei angen ar bob aelod o staff, a pha mor aml y mae angen derbyn yr hyfforddiant, er mwyn sicrhau bod y cyfraddau cydymffurfio yn gywir;
  - codi ymwybyddiaeth ymhlith y staff ynglŷn â'u cyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol; ac
  - ystyried a ddylid defnyddio cyfraddau cydymffurfio â'r broses arfarnu a hyfforddiant statudol a gorfodol yn sail ar gyfer trefniadau monitro perfformiad.

# Atodiad 1

---

## Dull archwilio

Gofynnai'r archwiliad y cwestiwn canlynol: 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol yn rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?' Yn benodol, archwiliwyd:

- a oes strategaeth glir ar gyfer darparu'r gwasanaeth nyrsio ardal;
- a oes digon o adnoddau nyrsio ardal er mwyn bodloni'r galw;
- a yw adnoddau nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol; ac
- a oes trefniadau effeithiol ar waith i fonitro ansawdd a pherfformiad gwasanaethau nyrsio ardal.

Cynhaliom sawl gweithgaredd archwilio rhwng mis Mawrth a mis Awst 2014 er mwyn ateb y cwestiynau hyn. Cynhaliwyd pob gweithgaredd archwilio, a ddisgrifir yn y tabl isod, mewn wythnosau dilynol er mwyn lleihau effaith y naill weithgaredd ar y llall.

Gweithgareddau archwilio	Pwrpas
<b>1. Arolwg o'r timau</b>	Gofynnwyd i arweinwyr timau unigol lenwi holiadur byr am eu tîm. Yn yr holiadur, gofynnwyd am wybodaeth am niferoedd y gweithlu, y mathau o weithgareddau gofal yr oedd y staff wedi'u hyfforddi i'w darparu ac a oedd y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio, nifer y staff a chanddynt gymwysterau ymarferydd arbenigol, cyfranogiad mewn goruchwyliaeth glinigol ac amser wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddiant. Cwblhawyd a derbyniwyd 26 o holiaduron.
<b>2. Dyddiadur llwyth gwaith unigol</b>	Gofynnwyd i'r holl staff nyrsio, a oedd yn gweithio fel aelod o dîm nyrsio ardal ar adeg yr archwiliad, i gadw dyddiad saith diwrnod o'u gweithgarwch rhwng 31 Mawrth a 6 Ebrill 2014. Roedd y dyddiadur yn gofnod o'r amser yr oedd aelodau unigol o staff yn ei dreulio ar wahanol fathau o weithgarwch, a nifer a lleoliad y cysylltiadau â chleifion. Cawsom 221 o ddyddiaduron wedi'u cwblhau ar gyfer yr wythnos gyfeiriol gan rai a oedd yn gweithio fel aelodau o staff y gwasanaeth nyrsio ardal.
<b>3. Arolwg rhagolygol o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth</b>	Gofynnwyd i'r timau nyrsio ardal lenwi holiadur byr am bob atgyfeiriad a dderbyniodd y tîm rhwng 7 Ebrill ac 13 Ebrill 2014. Gofynnai'r arolwg am wybodaeth ynghylch nifer a natur yr atgyfeiriadau a wnaed i'r gwasanaethau nyrsio ardal, gan gynnwys ansawdd yr wybodaeth atgyfeirio a phriodolrwydd tybiedig yr atgyfeiriadau a dderbyniodd y timau nyrsio ardal. Llenwodd pob tîm holiadur ar gyfer pob atgyfeiriad newydd a dderbyniwyd ac a arweiniodd at ymweliad wyneb yn wyneb neu alwad ffôn. Cwblhawyd a derbyniwyd 237 o holiaduron. Fodd bynnag, dywedodd y timau wrthym na chafodd yr holl atgyfeiriadau newydd eu cynnwys. Rydym wedi defnyddio canfyddiadau'r holiaduron i amlygu sawl problem yn gysylltiedig â'r broses atgyfeirio.

Gweithgareddau archwilio	Pwrpas
	<p>Dengys gwybodaeth a ddarparwyd yn ddiweddarach gan y Bwrdd Iechyd fod canfyddiadau'r arolwg yn rhoi amcangyfrif rhy isel o'r galw gwirioneddol, ac mai ychydig yn llai na hanner yr atgyfeiriadau a gafwyd oedd wedi'u cynnwys yn ein harolwg. Ar ben hynny, mae'r data ar atgyfeiriadau yn ystod yr wythnos gyfeiriol, o'i gymharu â chyfartaledd wythnosol y flwyddyn gynt, yn awgrymu bod y galw wedi treblu o fewn blwyddyn.</p>
<p><b>4. Arolwg o'r llwyth achosion</b></p>	<p>Gofynnwyd i'r timau nyrsio ardal gwblhau holiadur byr ynghylch pob claf 'gweithredol', hynny yw, unrhyw glaf a gafodd ymweliad, neu gyswllt, gan y tîm nyrsio ardal yn ystod y chwe mis blaenorol, ac yr oedd ymweliad arall wedi'i gynllunio ar ei gyfer. Gallai arweinwyr tîm gynnal yr adolygiad ar unrhyw bryd rhwng 14 Ebrill ac 11 Mai 2014. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch cyfansoddiad y llwyth achosion, yn enwedig y ffactorau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• oed a rhyw;</li> <li>• a ystyrir bod y claf yn gaeth i'w dŷ;</li> <li>• mathau o ymyriadau gofal;</li> <li>• amllder yr ymweliadau;</li> <li>• cyfnod yn y llwyth achosion;</li> <li>• a oes angen gofal nyrsio y tu allan i oriau; ac</li> <li>• a yw'r claf yn derbyn gofal neu gefnogaeth gan wasanaethau gofal iechyd eraill yn y gymuned, gan nyrsys arbenigol, y gwasanaethau cymdeithasol a gofaluwr di-dâl.</li> </ul> <p>Cwblhawyd a derbyniwyd 5,347 o holiaduron.</p>
<p><b>5. Arolwg o'r Bwrdd Iechyd</b></p>	<p>Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd gwblhau holiadur byr, a ofynnai am wybodaeth ynglŷn â'r model ar gyfer darparu gwasanaethau nyrsio ardal, tueddiadau yn niferoedd y gweithlu a gwariant ar wasanaethau, gwybodaeth am gydymffurfio â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad a hyfforddiant statudol a gorfodol, a threfniadau i reoli perfformiad, gan gynnwys agweddau ansawdd a diogelwch.</p>
<p><b>6. Gweithdai gydag arweinwyr tîm a rheolwyr</b></p>	<p>Rhannwyd canfyddiadau'r ymarferion casglu data ag arweinwyr tîm mewn gweithdy adborth a gynhaliwyd yng nghanol mis Gorffennaf. Roedd y gweithdy hwn yn gyfle i arweinwyr tîm gynnig sylwadau ynghylch dilystrwydd y canfyddiadau.</p>
<p><b>7. Gweithdy gyda'r uwch dîm rheoli nyrsio a'r cyfarwyddwyr gweithredol</b></p>	<p>Buom yn cyfarfod ag uwch reolwyr ar ddiwedd mis Rhagfyr, a'r Cyfarwyddwr Nyrsio gweithredol ym mis Ionawr, er mwyn rhannu ein casgliadau cychwynnol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad.</p>

# Atodiad 2

## Cyflwyno'r prif ganfyddiadau

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales



### Adolygiad Nyrsio Ardal

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

#### Cefndir

- Staff nyrsio ardal yw un o'r prif ddarparwyr gofal iechyd yng nghartrefi cleifion.
- Mae'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn debygol o godi:
  - mae deuparth y boblogaeth yng Nghymru sy'n 65 oed neu'n hŷn yn adrodd bod ganddynt o leiaf un cyflwr cronig, tra bod gan draean ohonynt sawl cyflwr cronig; ac
  - mae pobl yn byw'n hirach a rhagwelir y ceir cynnydd o 49 y cant yn nifer y bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf erbyn 2036, ynghyd â chynnydd o 137 y cant yn nifer y bobl oedrannus iawn, hy. rhai sy'n 85 oed neu'n hŷn.
- Yng ngwaith blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflyrau cronig, canfuwyd yn genedlaethol:
  - mai ychydig o fyrddau iechyd oedd â dealltwriaeth o gapasiti neu allu eu gweithlu cymunedol, gan olygu ei bod hi'n anodd targedu hyfforddiant er mwyn symud gofalu'r gymuned;
  - bod rhai byrddau iechyd wedi ad-drefnu gwasanaethau nyrsio ardal er mwyn darparu'r capasiti i symud a chydgysylltu gofal; a
  - gellid cydgysylltu gwasanaethau cymunedol yn well gan fod llawer o wasanaethau, gan gynnwys nyrsio ardal, yn darparu'r un gwasanaeth neu wasanaeth tebyg i'r un garfan o gleifion.
- Er mwyn cyflenwi gofal yn nes at adref, mae angen gweithlu cymunedol a chanddo adnoddau a sgiliau priodol, sy'n cael ei roi ar waith mewn modd effeithiol.
- Yn sgil y cynnydd yn y galw a'r cyfyngiadau parhaus ar arian, mae angen i fyrddau iechyd ddeall y defnydd a wneir o'r gwasanaeth nyrsio ardal a sut mae'n rhan o ddatblygiad cyffredinol gwasanaethau cymunedol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 2

---

## Cwestiwn archwilio



**A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol yn rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?**

- A oes strategaeth glir i'r gwasanaeth nyrsio ardal?
- A oes digon o adnoddau nyrsio ardal i fodloni'r galw?
- A yw'r staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol?
- A oes trefniadau effeithiol i fonitro a gwella'r gwasanaeth nyrsio ardal?

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 3

---

## Casgliad cyffredinol



Er bod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth lefel uchel ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal, mae angen gwneud gwaith pellach i gryfhau trefniadau cynllunio gwasanaethau a monitro perfformiad, ac i wella'r ddealltwriaeth o'r galw a'r defnydd o adnoddau.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 4

---

## Is-gasgliadau



- 1. Strategaeth a chynllunio:** Mae'r gwasanaeth nyrzio ardal yn rhan annatod o weledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymuned a chanddynt linellau atebolrwydd clir o fewn ardaloedd lleol, ond nid yw gofynion manwl y gweithlu wedi'u nodi eto.
- 2. Adnoddau i fodloni'r galw:** Mae gan y gwasanaeth nyrzio ardal adnoddau da, ond prin yw'r ddealltwriaeth o'r galw am y gwasanaeth, ac mae angen rheolaeth well ar alw o natur amhriodol.
- 3. Defnydd effeithiol:** Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu na all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ei staff nyrzio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol.
- 4. Trefniadau i fonitro a gwella gwasanaethau:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn frwd yn fora nyrzio ardal Cymru gyfan, ond nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro gwasanaethau nyrzio ardal ar lefel gorfforaethol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Adolygiad Nyrzio Ardal

Sleid 5

---

## Strategaeth a chynllunio



Mae'r gwasanaeth nyrzio ardal yn rhan annatod o weledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol a chanddynt linellau atebolrwydd clir o fewn ardaloedd lleol, ond ni wyddys hyd yma beth yw gofynion manwl y gweithlu.

Adolygiad Nyrzio Ardal

Sleid 6



---

## Strategaeth



**a. Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir i symud gwasanaethau tua'r gymuned, ac mae nyrsio ardal yn rhan annatod o'r weledigaeth hon.**

- Yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd, nodir y weledigaeth i gyflenwi mwy o wasanaethau mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol, gan leihau'r angen i dderbyn cleifion i gael gofal mewnol yn yr ysbyty hyd y gellir.
- Er mwyn datblygu ei gynllun tymor canolig integredig, defnyddiodd y Bwrdd Iechyd gwmni allanol i adolygu nifer o wasanaethau, gan gynnwys nyrsio ardal. Y nod oedd chwilio am gyfleoedd i wella ansawdd ac effeithlonrwydd, a oedd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cynllun.
- I gefnogi gweithredu'r cynllun tymor canolig integredig, mae'r is-adran gymunedol yn datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol, ac mae nyrsio ardal yn rhan annatod o'r weledigaeth hon.
- Bu'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n frwd â staff nyrsio ardal a rhanddeiliaid eraill er mwyn trafod cynigion i leihau nifer y timau a chysoni'r timau â chlystyrau meddyg teulu, gan gadw cysylltiadau â phractisau meddyg teulu unigol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 7

---

## Cynlluniau gweithredol



**b. Nid yw cynllun manwl ar gyfer gweithlu'r gwasanaeth nyrsio ardal wedi cael ei ddatblygu eto, yn sail i weledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol.**

- Ym manyleb y gwasanaeth nyrsio ardal, a gyhoeddwyd yn 2010, nodir yn glir beth yw rôl y gwasanaeth nyrsio ardal a'i gyd-destun oddi mewn i wasanaethau cymunedol a nyrsio ehangach; bydd angen diweddarau'r fanyleb i gefnogi'r weledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol.
- Roedd yr adolygiad allanol o arferion a strwythurau gweithredol yn 2013 yn sail ar gyfer cynlluniau'r Bwrdd Iechyd i ad-drefnu'r timau nyrsio ardal. Yn ogystal â hynny, ffurfiolodd fodelau gwaith i gau'r bwch 1.5 awr mewn darpariaeth gwasanaeth.
- Mae cynllun manwl ar gyfer y gweithlu i gefnogi gweledigaeth y Bwrdd Iechyd i symud gwasanaethau tua'r gymuned yn dal heb ei ddatblygu. Fodd bynnag, yn sgil gwaith diweddar i ad-drefnu'r timau bydd nifer y timau a'r aelodau uwch o staff nyrsio ardal yn gostwng wrth i'r Bwrdd Iechyd geisio cyfuno sgiliau arwain a rheoli'r aelodau hyn o staff:
  - yn ôl y Bwrdd Iechyd, drwy wneud y timau'n fwy ceir amrywiaeth well o sgiliau ym mhob tîm.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 8

---

## Llinellau atebolrwydd



### **C. Mae'r strwythur ardal yn darparu llinellau atebolrwydd rheolaethol a phroffesiynol clir.**

- mae'r llinellau atebolrwydd rheolaethol yn glir o fewn ardaloedd, ac mae arweinyddiaeth broffesiynol a chlinigol wedi'i sefydlu i gefnogi'r staff;
- mae cyfarfodydd rheoli ac ardal rheolaidd yn gwella'r cyfathrebu, yn cynorthwyo atebolrwydd ac yn creu awyrgylch cefnogol i'r arweinwyr tîm; ac
- mae gwaith diweddar i ad-drefnu timau nyrsio ardal yn cynnig cyfle i gytuno ar y model arweinydd tîm newydd i gefnogi arweinyddiaeth a rheolaeth gyson ar raddfa leol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 9

---

## Adnoddau i fodloni'r galw



Mae gan y gwasanaeth nyrsio ardal adnoddau da, ond prin yw'r ddealltwriaeth o'r galw am y gwasanaeth, ac mae angen rheolaeth well ar alw o natur amhriodol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 10

---

## Deall y galw



### a. Prin yw'r ddealltwriaeth o'r galw am y gwasanaethau nyrsio ardal.

- Nid oes unrhyw systemau ar waith i gasglu gwybodaeth am nifer a natur atgyfeiriadau mewn modd cyson. Mae'r meini prawf atgyfeirio wedi dyddio, ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd:
  - mae'r galw cynyddol am y gwasanaeth, a gallu'r gwasanaeth i ateb y galw hwnnw wedi'i amlygu ar y gofrestr risg leol.
- Nid yw systemau gwybodaeth yn cefnogi adolygiadau systematig o lwythi achos, gydag adolygiadau blaenorol o lwythi achos yn dibynnu ar gofnodion papur llafurddwys:
  - mylai'r system wybodaeth gofal cymunedol arfaethedig ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cael ei chynnig ar dendr ar hyn o bryd, gyfrannu rhywfaint at leihau'r bwlch gwybodaeth.
- Yn gyffredin â byrddau iechyd eraill yng Nghymru, nid oes unrhyw offer safonedig yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i fesur dibyniaeth a chymhlethdod cleifion. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn helpu i ddatblygu a phrofi offeryn Cymru gyfan i fesur cymhlethdod anghenion gofal cleifion.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 11

---

## Deall y galw



### Canfyddiadau o'r arolwg o lwyth achosion nyrsio ardal (i):

- Aradeg ein harchwiliad, yr oedd ychydig dros 5,290 o gleifion 'gweithredol'<sup>1</sup> yn y 25 o lwythi achos:
  - yr oedd 84 y cant yn 65 oed neu'n hŷn; yr oedd 36 y cant yn 85 oed neu'n hŷn;
  - yr oedd 29 y cant yn derbyn ymweliad wythnosol neu'n amlach na hynny; yr oedd 28 y cant yn derbyn ymweliadau misol, 21 y cant yn derbyn ymweliad bob 2 i 3 mis, 11 y cant yn derbyn ymweliad bob pedwar i chwe mis a phump y cant yn derbyn ymweliad blynyddol;
  - roedd gan bedwar y cant anghenion nyrsio y tu allan i oriau craidd;
  - yr oedd 96 y cant o gleifion yn derbyn ymweliad gan un gweithiwr yn eu cartref eu hunain;
  - yr oedd 61 y cant yn derbyn cymorth gan ofalwr di-dâl;
  - yr oedd 67 y cant yn cael eu hystyried yn gleifion a oedd yn 'gaeth i'w cartref'<sup>2</sup> ond amrywiol hyn rhwng 24 y cant a 93 y cant rhwng y gwahanol dimau; ac
  - mae 40 y cant wedi bod yn y llwyth achosion er mwy na dwy flynedd, ond mae'r gyfran hon yn llawer uwch yn ardal Cynon (50 y cant).

<sup>1</sup> Dyma'r cleifion a oedd wedi cael ymweliad gan y tîm nyrsio ardal craidd (hy, oriau dydd) yn ystod y chwe mis cyn cynnal yr adolygiad, ac yr oedd ymweliad arall wedi'i drefnu ar eu cyfer.

<sup>2</sup> Pobl y byddai eu cyflwr meddygol ac/neu seicolegol yn dirywio i raddau andwyol pe baent yn gadael amgylchedd eu cartref i dderbyn gofal neu driniaeth yw'r cleifion hynny a gyfrifir fel rhai sy'n gaeth i'w cartrefi.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 12

## Deall y galw

### Canfyddiadau o'r arolwg o lwyth achosion nyrsio ardal (ii):

Gal staff nyrsio ardal ddarparu ymyriadau gofal unigol neu luosog i'r cleifion yn y llwyth achos.

Ymyriadau gofal y cyfeirir atynt amlaf <sup>1</sup>	Canran (%) y cleifion yn y llwyth achosion
Tynnu gwaed	30
Briwiau pwysu	16
Ymataliaeth	12
Gofal clwyfau	9
Rhoi meddyginiaethau isgroenol	7
Wiserau coes	6
Methiant y galon	4
Diabetes	4
Salwch aciwt	2
Diwedd oes	1
Arall, ee, rhoi meddyginiaethau, anghenion gofal iechyd parhaus, monitro pwysedd gwaed, gofal ar gyfer cyflyrau cronig ac eithno'r rhai a restrir uchod	10

<sup>1</sup>Gofynnwyd i arweinyddwr tîm nodi pa becyn gofal neu ymyriad gofal, o restr o 17, oedd yn rhoi'r disgifiad gorau o'r gofal yr oedd cleifion yn ei dderbyn. Tybiwyd bod pob becyn gofal yn cynnwys asesiad a thriniaeth, lliniaru a rheolaeth ar symptomau, hybu iechyd, monitro ac addysg cleifion/gofalwyr. Derbyniodd traean o'r cleifion un ymyriad gofal, derbyniodd traean arall ddau ymyriad gofal, a thraean arall dri neu fwy o ymyriadau gofal.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 13

## Rheoli'r galw

### b. Mae angen gwella'r rheolaeth ar y galw am wasanaethau nyrsio ardal.

- Mae ffurflen atgyfeirio safonol ar gael, ond nid yw'n cael ei defnyddio'n aml, ac mae hynny'n cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i fonitro'r galw.
  - caiff gwybodaeth am atgyfeiriadau ei chasglu mewn modd ad hoc, ee drwy ddefnyddio nodynnau gludiog.
- Ystyrir bod cyfran sylweddol o'r atgyfeiriadau i'r gwasanaeth nyrsio ardal yn amhriodol, er bod meini prawf atgyfeirio clir wedi'u sefydlu.
- Ni chaiff atgyfeiriadau amhriodol eu hailgyfeirio bob tro, a bydd nifer fach o atgyfeiriadau amhriodol yn arwain at ofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf.
- Ystyrir bod gwybodaeth atgyfeirio'n briodol ar y cyfan, ond ceir bylchau mewn gwybodaeth sylfaenol:
  - o ran digonolrwydd yr wybodaeth, ymddengys fod yr agwedd mewn rhai ardaloedd yn fwy derbyngar nag mewn ardaloedd eraill; ac
  - mae amryw o arweinyddwr tîm dweud wrthym eu bod wedi gweithio'n galed i bwysu ar bractisau meddyg teulu i ddefnyddio'r ffurflenni atgyfeirio, ac mae hyn yn gwella ansawdd yr wybodaeth.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 14

## Rheoli'r galw

### Canfyddiadau o'r arolwg atgyfeirio (i):

Casglwyd gwybodaeth gennym am 237 o achosion a oedd wedi'u hatgyfeirio yn ystod yr wythnos gyfeiriol, gyda nifer yr atgyfeiriadau'n amrywio rhwng un a 41 fesul tîm. Fodd bynnag, dywedodd y timau wrthym nad oedd yr holl atgyfeiriadau wedi'u cyfrif. Dengys gwybodaeth a ddarparwyd yn ddiweddarach gan y Bwrdd Iechyd fod canfyddiadau'r arolwg yn rhoi amcangyfrif rhy isel o'r galw gwirioneddol, ac mai ychydig yn llai na hanner yr atgyfeiriadau a gafwyd oedd wedi'u cynnwys yn yr archwiliad. Ar ben hynny, mae'r data ar atgyfeiriadau yn ystod yr wythnos gyfeiriol, o'i gymharu â chyfartaledd wythnosol y flwyddyn gynt, yn awgrymu bod y galw wedi treblu o fewn blwyddyn. Ar sail yr arolygon a ddychwelwyd:

- Ar ddiwrnodiau gwaith y ceir y mwyaf o alw am wasanaethau nyrsio ardal, o fesur yn ôl nifer yr atgyfeiriadau:
  - daeth bron yr holl atgyfeiriadau a gafwyd i law yn ystod yr oriau craidd ar ddiwrnodiau gwaith, ac ychydig (6 y cant) a gafwyd ar y penwythnos; a
  - bydd atgyfeiriadau'n cyrraedd penllanw ar ddyddiau Mawrth a Gwener, ond mae'r patrwm yn amrywio ar draws yr ardaloedd.
- Roedd llawer o'r galw (45 y cant) am ofal nyrsio ardal yn cael ei ysgogi gan atgyfeiriadau o bractisau meddyg teulu. Deuai traean (30 y cant) o'r atgyfeiriadau gan staff wardiau ysbty, ond roedd hyn yn amrywio i raddau helaeth rhwng y naill ardal a'r llall:
  - canfyddiad y timau yw bod llawer o gleifion yn cael eu hatgyfeirio gan fod y rhai sy'n eu hatgyfeirio yn gwybod y bydd y gwasanaeth yn 'datrys' sefyllfa'r claf.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 15

## Rheoli'r galw

### Canfyddiadau o'r arolwg atgyfeirio (ii):

- Yr oedd ychydig dros ddwy ran o bump (44 y cant) o atgyfeiriadau ar gyfer cleifion a oedd eisoes yn hysbys i'r staff nyrsio ardal.
- Yr oedd dwy ran o dair (63 y cant) o atgyfeiriadau ar gyfer gofal clwyfau a thynnu gwaed a 10 y cant o atgyfeiriadau ar gyfer rhoi meddyginiaethau. Cafwyd rhai mân wahaniaethau wrth gymharu'r rhesymau dros atgyfeirio rhwng y cleifion sy'n hysbys i'r gwasanaeth hy, 'hen' gleifion a chleifion nad ydynt yn hysbys i'r gwasanaeth hy, cleifion 'newydd':
  - Yr oedd cyfran uwch o'r atgyfeiriadau tynnu gwaed ar gyfer hen gleifion, tra bo cyfran uwch o'r atgyfeiriadau gofal clwyfau ar gyfer cleifion newydd.
  - Dywedodd timau wrthym fod practisau meddyg teulu yn aml yn dweud wrth gleifion am gysylltu â'r 'nyrs ardal' i ofyn am brawf gwaed. Yn ôl manyleb y gwasanaeth, mae'r gwasanaeth yn cefnogi rheolaeth ar INR ar y cyd â phractisau meddyg teulu.
- Ystyriwyd bod pedwar o bob pum atgyfeiriad (81 y cant) yn briodol; Ystyriwyd bod un o bob pum atgyfeiriad yn amhriodol 'oherwydd dylai neu gallai gweithiwr proffesiynol nyrsio arall fod wedi darparu'r gofal', neu am nad oedd angen unrhyw ofal nyrsio:
  - roedd y nifer a ystyriai fod atgyfeiriadau'n briodol yn amrywio i raddau helaeth rhwng gwahanol ardaloedd (gan amrywio rhwng 53 y cant a 97 y cant);
  - arweiniodd nifer fach o atgyfeiriadau at ofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf, er iddynt gael eu tybio yn rhai amhriodol (9 o'r 46 o atgyfeiriadau amhriodol).

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 16

## Rheoli'r galw

### Canfyddiadau o'r arolwg atgyfeirio (iii):

- Arweiniodd ychydig dros hanner (56 y cant) yr atgyfeiriadau at ofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf:
  - arweiniodd cyfran sylweddol (20 y cant) o'r atgyfeiriadau at ymweliad untro; ym mwy na chwarter yr achosion (23 y cant), nid oedd penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â'r angen am ofal parhaus.
- Ystyriwyd bod gwybodaeth ddigonol wedi'i darparu ar gyfer ychydig dros hanner (56 y cant) yr atgyfeiriadau, er bod gwybodaeth sylfaenol ar goll:
  - Ar draws yr ardaloedd, yr oedd y gyfran o atgyfeiriadau lle ystyriwyd bod gwybodaeth ddigonol wedi'i darparu yn amrywio rhwng 37 y cant ac 81 y cant.
  - Dim ond un rhan o bump (21 y cant) o atgyfeiriadau sydd ar ffurf ysgrifenedig, felly mae'n bosibl bod hyn yn amharu ar ansawdd yr wybodaeth.
  - Mae'r adborth gan yr arweinwyr tîm yn awgrymu bod ansawdd yr wybodaeth atgyfeirio weithiau'n annigonol, hyd yn oed wrth reoli atgyfeiriadau drwy'r Ganolfan Gyfathrebu. Yn ardal Cynon, ceir galwad ffôn awtomatig yn dilyn pob atgyfeiriad a dderbynnir drwy'r Ganolfan.
- Cafodd cleifion eu gweld yn gyflym gyda 22 y cant 'wedi'u gweld' ar yr un diwrnod ag y derbyniwyd yr atgyfeiriad a 36 y cant wedi'u gweld y diwrnod canlynol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 17

## Rheoli'r galw

Daw'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau gan feddygon teulu a'u staff, ond mae hyn yn amrywio rhwng ardaloedd.


Canran (%) yr atgyfeiriadau a gafwyd o:	Ardal				Cwm Taf
	Cynon	Merthyr	Rhondda	Taf Elái	
Practis meddyg teulu	39	56	37	45	45
Staff wardiau ysbyty	27	26	41	28	30
Gofalwr (ee, perthynas)	16	6	9	12	11
Hunan-gyfeirio	14	8	2	5	7
Arall	2	3	9	8	5
Gwasanaethau cymdeithasol	2	2	2	1	2
Damweiniau ac Achosion Brys	0	0	0	1	1

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 18

## Rheoli'r galw

Mae bron i dri chwarter yr atgyfeiriadau ar gyfer gofal clwyfau, tynnu gwaed a rhoi meddyginaeth, gan roi adlewyrchiad bras o broffil y llwyth achosion.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 19

## Rheoli'r galw

Mae gwybodaeth atgyfeirio sylfaenol ar goll.

Canran (%) yr atgyfeiriadau a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:	
brys yr atgyfeiriad?	79
hanes meddygol neu ddiagnosis?	62
a fyddai angen cyfarpar neu orchuddion?	53
a yw'r claf yn byw ar ei ben ei hun?	36
sut y byddech yn cael mynediad i gartref y claf?	29
a oes gan y claf ofalwr?	26
a oes gweithwyr iechyd eraill yn ymwneud â gofal y claf?	23
a yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â gofal y claf?	17
a yw gwasanaethau gwirfoddol yn ymwneud â gofal y claf?	10

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 20

---

## Yr adnoddau sydd ar gael



- C. O gymharu â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, ceir adnoddau da o fewn y gwasanaeth nyrsio ardal ar hyn o bryd, o ran niferoedd a'r gymysgedd o raddau ymhlith y staff.**
- Mae lefelau staffio yn seiliedig ar ddyraniadau hanesyddol, ond yn destun adolygiad blynyddol:
    - pan fydd swyddi gwag yn codi, mae gan uwch nyrsys yr hyblygrwydd i benderfynu, ar ôl trafod â'r arweinydd tîm, a ddylid recriwtio i'r un swydd, neu newid y gymysgedd o raddau, ar yr amod bod cyllid ar gael.
  - Mae nifer y staff nyrsio cymuned sydd ar gael ar gyfer y boblogaeth o gleifion cofrestredig ar ei uchaf yng Nghymru:
    - ceir 3.7 aelod o staff nyrsio ardal CALI fesul 1,000 o gleifion cofrestredig 65 oed a hŷn yng Nghwm Taf, o gymharu â 2.8 aelod o staff CALI ledled Cymru.
  - Mae nifer y staff nyrsio ardal yn gymharol debyg i'r nifer yn 2009.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 21

---

## Yr adnoddau sydd ar gael



- C. parhad...**
- Mae'r gymysgedd o raddau wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf, gyda gostyngiad yn nifer yr aelodau uwch o staff nyrsio ardal (Bandiau 6 a 7) a chynnydd yn niferoedd y nyrsys staff cymunedol:
    - Yn sgil newidiadau diweddar i strwythur y timau, bydd nifer yr aelodau uwch o staff yn gostwng cymaint â 40 y cant eto.
    - Yn draddodiadol, 80:20 fu'r gymhareb ar gyfer staff cofrestredig i staff anghofrestredig. Ar hyn o bryd, gweithwyr cymorth gofal iechyd yw 19 y cant o'r gweithlu ar hyn o bryd, ond mae hyn yn amrywio ar draws y timau, o fewn a rhwng ardaloedd.
  - Ar adeg yr archwiliad, roedd y gyfradd swyddi gwag ar gyfer staff nyrsio ardal yn is na chyfartaledd Cymru.
  - Cafwyd cynnydd cymedrol yng nghostau cyflog staff nyrsio ardal parhaol dros y pedair blynedd diwethaf; cyfran fechan iawn o gyfanswm y bil cyflogau yw'r costau cyflog ar gyfer staff dros dro, ond cafwyd gostyngiad sylweddol i'r costau hyn dros yr un cyfnod.


Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 22



## Adnoddau sydd ar gael

Mae nifer y staff nyrsio ardal sydd ar gael ar gyfer y boblogaeth o gleifion cofrestredig 65 oed neu hŷn ar ei uchaf yng Nghymru.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 23

## Yr adnoddau sydd ar gael – y gweithlu tabl tueddiadau

Er bod nifer y staff nyrsio ardal yn gymharol debyg i'r hyn a fu, mae'r gymysgedd o raddau wedi newid, gyda gostyngiadau mewn nyrsys ardal a chynnydd mewn nyrsys staff cymunedol a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Band Cyflog	Nifer y staff CALI yn y swyddi		Canran y newid (%)
	2009 <sup>1</sup>	2013	
Band 7 - Nyrs ardal <sup>2</sup>	30.0	25.0	-17
Band 6 - Nyrs ardal	49.1	44.8	-9
Band 6 - Nyrs staff cymunedol	3	3	0
Band 5 - Nyrs staff cymunedol	76.9	84.6	10
Band 3 - GCGI	20.2	23.8	18
Band 2 - GCGI	6.9	6.5	-6
<b>Cyfansymiau</b>	<b>186.1</b>	<b>187.7</b>	<b>1</b>

<sup>1</sup> Dyma nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn y swydd ar 1 Hydref 2009, ac ar 30 Medi 2013.


<sup>2</sup> Ers cwblhau'r archwiliad, mae timau nyrsio ardal wedi cael eu had-drefnu a nifer y staff ym Mandiau 6 a 7 wedi gostwng ymhellach yn ôl y Bwrdd Iechyd.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 24

## Yr adnoddau sydd ar gael

Mae'r gyfran o Nyrsgys Ardal ym Mandiau 6 a 7 ar ei uchaf yng Nghymru, gyda mwy na thraean y gweithlu nyrsio ardal ym Mandiau 6 a 7.<sup>1</sup>




<sup>1</sup>Ers cwblhau'r archwiliad, mae timau nyrsio ardal wedi cael eu had-drefnu a nifer y staff ym Mandiau 6 a 7 wedi gostwng ymhellach yn ôl y Bwrdd Iechyd.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 25

## Yr adnoddau sydd ar gael

Mae'r gymysgedd o raddau yn amrywio ar draws timau nyrsio ardal<sup>1</sup> o fewn a rhwng ardaloedd.



<sup>1</sup> Ers ein hadolygiad, mae nifer y timau wedi gostwng o 26 i 17 a'r gymysgedd o raddau rhwng y timau wedi newid.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 26

## Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau

- d. Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod gan staff fynediad at hyfforddiant, a bod staff yn gwneud defnydd o'r sgiliau y mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar eu cyfer, ond mae'r lefelau cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael.**
- Mae'r Bwrdd lechyd yn cynnal dadansoddiad blynyddol o anghenion hyfforddi, ond nid yw'r holl aelodau o staff yn derbyn arfarniad ac adolygiad o'u cynllun datblygu:
    - Dylai pob aelod o staff dderbyn arfarniad ac adolygiad blynyddol o'u hanghenion datblygu, a dylai uwch nyrsys fod yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfio â'r broses. Fodd bynnag, dim ond 75 y cant yw'r gyfradd cydymffurfio.
  - Mae'r gyfradd cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael:
    - mae'r cyfraddau cydymffurfio yn isel, gyda chyfradd o 71 y cant ym maes dadebru, a llawer o feysydd eraill yn is hyd yn oed, megis cyfradd cydymffurfio o 13 y cant ym maes diogelu oedolion, cyfradd cydymffurfio o 0 y cant ym maes rheoli gwybodaeth, neu gyfradd anhysbys fel y ceir ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol; a
    - dywedodd staff wrthym fod cael mynediad at hyfforddiant statudol a gorfodol weithiau'n anodd - nid ydynt yn gallu cael eu rhyddhau i fod yn bresennol, gan nad oes neb i lenwi eu swydd tra byddant i ffwrdd o'r gwaith.
  - Gall staff nyrsio ardal cyflogedig fanteisio ar amser cyflogedig wedi'i ddiogelu ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus:
    - Dywedodd dau dîm nad oeddent fyth yn gallu manteisio ar amser cyflogedig wedi'i ddiogelu.
    - Mae gan y Bwrdd lechyd hwyluswyr ymarfer, a ariennir yn rhannol gan y Bwrdd lechyd a'r brifysgol. Mae'r timau nyrsio'n gallu manteisio ar eu gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn cynorthwyo i ddatblygu ymarfer a sgiliau.
    - Ceir 10 o athrawon ymarfer clinigol a dau anweinydd cefnogi proffesiynol ar gyfer myfyrwyr nyrsio cyn ac ôl-gofrestru.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 27

## Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau

**d. Parhad ...**

- Mae'r Bwrdd lechyd yn annog goruchwyliaeth glinigol. Mae'n ystyried hyn yn hollbwysig ar gyfer perfformiad y tîm ac, yn rhan o'r model arweinwyr tîm newydd, ar gyfer cynlluniau i ddatblygu fframwaith ffurfiol:
  - ar hyn o bryd, mae trefniadau anffurfiol i oruchwyllo cymheiriaid ar waith; ac
  - mae gan y Bwrdd lechyd gynlluniau i ddatblygu ymweliadau arsylwi a goruchwyllo mwy ffurfiol er mwyn asesu ymarfer clinigol aelodau unigol o staff sy'n gweithio yn y gymuned.
- O'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, mae staff nyrsio ardal fel arfer yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant eu hyfforddi ar eu cyfer.
- Mae'r gyfran o staff nyrsio ardal a chanddynt gymhwyster ymarferydd arbenigol (CYA) gyda'r uchaf yng Nghymru:
  - ar draws Cymru, mae gan ychydig dros chwarter (27 y cant) o staff nyrsio ardal cofrestredig gymhwyster ymarferydd arbenigol o gymharu â thraean (32 y cant) o staff yng Nghwm Taf; ac
  - mae gan gyfran fach (pump y cant) o nyrsys staff cymuned yng Nghwm Taf gymhwyster ymarferydd arbenigol, sydd yn debyg i gyfartaledd Cymru (chwech y cant).

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 28

## Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau

Mae'r gyfradd ar gyfer cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael.

Hyfforddiant statudol a gorfodol	Canran (%) y staff nyrsio ardal sy'n cydymffurfio â gofynion hyfforddi
Dadebru	71
Symud a Thrin	48
Diogelwch Tân	28
Atal a Rheoli Heintiau	23
Tras ac Ymddygiad Ymosodol	21
Iechyd, Diogelwch a Lles	14
Diogelu Oedolion	13
Diogelu Plant	9
Rheoli Gwybodaeth <sup>1</sup>	0
Cydraddoldeb, amrywiaeth, hawliau dynol	Anhysbys


<sup>1</sup> Yn ôl y Bwrdd Iechyd, bydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno'n raddol o fis Mawrth 2015.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 29

## Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r staff nyrsio ardal cofrestredig yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant hyfforddiant ar eu cyfer.




Yn ddefnyddol, dylai'r ddau far (glas a choch) gyfateb os yw'r holl staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ar sgiliau neilltuo yn gwneud defnydd o'r sgiliau hynny.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 30

## Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gwneud defnydd o'r sgiliau y maent wedi derbyn hyfforddiant ar eu cyfer.




Yn ddeilfrydol, dylai'r ddau far (glas a choch) gyfateb os yw'r holl staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ar sgiliau neilltuol yn gwneud defnydd o'r sgiliau hynny.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 31

## Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu gwasanaethau

Mae'r gyfran o staff nyrsio a chanddynt gymhwyster ymarferydd arbenigol gyda'r uchaf yng Nghymru.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 32

---

## Defnydd effeithiol



Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu na all y Bwrdd lechyd fod yn sicr bod ei staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 33

---

## Defnydd effeithiol



- a. Ceir amrywiaeth anesboniadwy yn y modd y caiff timau nyrsio ardal eu rhoi ar waith, ac mae'r Bwrdd lechyd yn dechrau mynd i'r afael â hyn.**
- Mae'r gyfran o amser a dreulir yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion gyda'r isaf yng Nghymru, a'r amser a dreulir ar weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chleifion gyda'r uchaf.
  - Mae'r gyfran o amser a dreulir gyda chleifion ac yn cyflawni gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chleifion, yn amrywio'n fawr o fewn ardaloedd a rhyngddynt, ac ar draws ac o fewn y graddau, ac mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio i ymdrin â hyn:
    - Mae'r gyfran o amser a dreulir yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion yn lleihau wrth fynd yn uwch drwy'r raddfa, gyda gwahaniaethau mawr rhwng y modd y bydd staff Band 6 a 7 yn treulio'u hamser.
    - Nid oes gan yr un o'r timau gefnogaeth glercol ac mae'n bosibl mai dyma'r rheswm pam bod rhai aelodau o staff Band 3 yn treulio cyfran uchel o'u hamser ar waith 'gweinyddol'.
    - Mae ad-drefnu'r timau'n galluogi arweinwyr tîm i bennu trothwyon priodol ar gyfer yr amser a dreulir wyneb yn wyneb â chleifion. Er enghraifft, mae'n debyg y bydd y gyfran o amser a dreulir gan staff Band 7 yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion wedi'i phennu'n 20 y cant.
    - Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar rolau gweithwyr cymorth gofal iechyd a'r modd y gellir datblygu a defnyddio'u sgiliau mewn modd mwy effeithiol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 34

## Defnydd effeithiol

### a. Parhad ...

- Ar y cyfan, amser teithio sydd i gyfrif am lai na phumed ran o'r amser a dreulir yn cyflawni gweithgarwch yn gysylltiedig â chleifion, tra bo'r amser teithio cyfartalog fesul cyswllt â chlaf yn amrywio ar draws y timau, o fewn a rhwng ardaloedd:
  - ar draws Cymru, amser teithio fesul ymweliad a chleifion oedd i gyfrif am 18 y cant o weithgarwch yn gysylltiedig â chleifion, yn amrywio rhwng 17 y cant a 22 y cant; a
  - dyrennir ymweliadau â chleifion mewn modd sy'n lleihau amser teithio rhwng cleifion hyd yr eithaf.
- Ymddengys fod y gymysgedd o staff o raddfeydd gwahanol a ddefnyddiwyd yn ystod yr wythnos yn gost-effeithiol, gyda staff Band 7 yn cael eu defnyddio ar ddiwrnodiau gwaith yn unig.


Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 35

## Defnydd effeithiol

Mae'r gyfran o amser a dreulir yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion gyda'r isaf yng Nghymru, tra bo'r amser a dreulir ar weithgarwch nad yw'n ymwneud â chleifion gyda'r uchaf.

■ Amser a dreulirwyd ar weithgarwch heb fod yn gysylltiedig â gofal cleifion  
■ Amser a dreulirwyd ar ofal cleifion anuniongyrchol  
■ Amser a dreulirwyd yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion




Gofal cleifion uniongyrchol yw cyswllt wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â chlaf. Mae a wnelo gofal cleifion anuniongyrchol â nodiadau cleifion, cysylltiadau ag asiantaethau eraill, teithio er mwyn ymweld â'r claf. Gofal nad yw'n ymwneud â chleifion yw pob math arall o weithgarwch ee, rheoli tim, dysgu ac addysgu, gweinyddiaeth a rheolaeth broffesiynol a chlïniol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 36

## Defnydd effeithiol

Ceir amrywiadau mawr rhwng y timau o ran y gyfran o amser a dreulir gyda chleifion yn cyflawni gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion.




Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 37

## Defnydd effeithiol

Mae'r gyfran o amser a dreulir gyda chleifion ac yn cyflawni gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â chleifion yn amrywio ar draws y graddfeydd.




Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 38



## Defnydd effeithiol

Ceir gwahaniaethau mawr yn y modd y bydd staff nyrso ardal ym Mandiau 6 a 7 yn treulio'u hamser.




Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 39

## Defnydd effeithiol

Mae'r amser teithio cyfartalog fesul cyswllt â chleifion yn amrywio ar draws y timau, o fewn a rhwng ardaloedd.



Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 40

---

## Cysoni adnoddau â'r llwyth achosion



### b. Mae'r staff wedi'u dosbarthu'n anwastad ar draws y llwythi achos gydag amrywio anesboniadwy rhwng y timau o ran nifer y cleifion yr ymwelwyd â hwy. Yn ogystal â hyn, roedd gormod o staff yn gweithio mwy na'u horiau contract.

- Mae'r llwyth gwaith, o'i fesur yn ôl nifer y cleifion fesul staff nyrsio ardal, yn amrywio ar draws y timau, o fewn a rhwng ardaloedd:
  - Mae nifer y cleifion fesul staff nyrsio ardal ddwywaith yn fwy mewn rhai timau nag mewn timau eraill, ac nid yw'n glir a yw'r amrywio hwn yn adlewyrchu anghenion cleifion neu ddyraniadau staffio hanesyddol. Yn ôl y Bwrdd Iechyd, mae'r newidiadau diweddar i strwythur y timau'n golygu bod adnoddau'n cyd-fynd yn well â'r llwyth achosion.
  - Mae proffil oedran cleifion yn y llwyth achosion yn amrywio rhwng y timau a'r ardaloedd gyda rhai timau'n gofalu am gyfran uchel o gleifion oedranus iawn.
- Cynhaliodd y staff nyrsio ardal fwy na 6,700 o ymweliadau neu gysylltiadau â chleifion yn ystod yr wythnos archwilio ond cafwyd llawer o amrywio anesboniadwy rhwng y timau o ran nifer y cleifion yr ymwelwyd â hwy a'r amser a gymerwyd i ymdrin â hwy:
  - Ar gyfartaledd, cynhaliodd y timau 37.5 o gysylltiadau fesul aelod CALI o'r tîm, ond roedd hyn yn amrywio rhwng 26.5 a 51 fesul aelod tîm CALI. Hyd cyfartalog pob cysylltiad oedd 17.2 munud fesul tîm, yn amrywio rhwng 13.4 munud fesul tîm a 30.1 munud fesul tîm.
  - Gallai'r amrywiadau hyn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn argaeledd staff, ar wahân i feddygon teulu, mewn lleoliadau gofal sylfaenol, dibyniaeth cleifion (eeanghenion gofal cymhleth sy'n cymryd llawer o amser), ymyriadau gofal byr y pellter a deithiwyd (felly llai o ymweliadau) a lleoliad y gofal (ee, mae'n bosibl y bydd mwy o gleifion yn cael eu gweld mewn clinigau).

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 41

---

## Cysoni adnoddau â'r llwyth achosion



### b. Parhad ...


- Gweithiodd ychydig o dan hanner y staff nyrsio ardal fwy na'u horiau gwaith contract:
  - Yn ystod yr archwiliad, roedd yr amser a weithiodd y staff, ac eithrio myfyrwyr cyn ac ôl-gofrestru a staff banc, yn ychwanegol at eu horiau contract yn amrywio rhwng rhai munudau a hyd at 27 awr. Roedd bron hanner y rhai a oedd yn gweithio mwy na'u horiau contract yn cael eu cyflogi'n rhan-amser.
  - Canolrif yr oriau ychwanegol a weithiwyd oedd 6.2 awr, sydd gyfwerth ag 16.6 aelod ychwanegol o staff CALI.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 42

## Cysoni adnoddau â'r llwyth achosion

Mae'r llwythi gwaith, o'u mesur yn ôl nifer y cleifion fesul staff nyrsio ardal, yn amrywio ar draws y timau o fewn a rhwng ardaloedd.




Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 43

## Cysoni adnoddau â'r llwyth achosion

Mae rhai timau nyrsio ardal yn darparu gofal i gyfran uchel o gleifion oedranus iawn.




Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 44

## Cysoni adnoddau â'r llwyth achosion

Mae cyfartaledd yr amser cyswllt â chleifion yn amrywio ar draws y timau ac o fewn a rhwng ardaloedd.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 45

## Rheoli'r llwyth achosion yn lleol

### C. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gryfhau trefniadau a systemau er mwyn cefnogi'r rheolaeth ar y llwyth achosion.

- Nid yw'r systemau cyfredol yn rhoi trosolwg i arweinywyr tîm o'u llwyth achosion, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau yn ôl y bwriad neu mewn modd amserol:
  - mae'r Bwrdd Iechyd yn prynu 'Chrome books', sef dyfeisiau symudol sy'n creu dull haws o gofnodi ac adalw gwybodaeth am gleifion.
- Anaml iawn y bydd llwythi achosion yn cau. Yn hytrach, byddant yn ymestyn i gynnwys cleifion newydd.
- Mae nifer yr ymweliadau â chleifion fel arfer wedi'u cyfyngu i bedwar ymweliad dros gyfnod o 24 awr, ond adroddodd bron hanner y timau y gall nifer yr ymweliadau fod yn ddiderfyn.
- Mae rhai timau'n gofalu am gleifion sydd wedi cofrestru â phractisau meddyg teulu y tu allan i ffiniau'r Bwrdd Iechyd ond mae'r gwasanaeth nyrsio ardal wedi gweithio gyda gwasanaethau cyfagos er mwyn dod i gytundeb ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ofal y cleifion hyn.
- Mae rhai cleifion yn aros ar y llwyth achosion am amser hir, ac ni fydd rhai o'r cleifion hyn ond yn derbyn ymweliadau blynyddol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 46

---

## Rheoli'r llwyth achosion yn lleol



### **c. Parhad ...**

- Gofelir am y rhan fwyaf o gleifion yn eu cartref eu hunain, ond nid yw pob claf yn gaeth i'w gartref:
  - Yn y fanyleb nyrsio ardal, nodir y bydd gofal yn cael ei ddarparu yn y lleoliad sydd yn fwyaf priodol i'r claf. Digwyddodd mwy na thri chwarter (77 y cant) o'r cysylltiadau â chleifion yng nghartref y claf, tra cysylltwyd â 12 y cant ohonynt dros y ffôn; ychydig o gysylltiadau (pump y cant) a ddigwyddodd yn y clinigau.
  - Gwneir ymrwymiad yn nrafft y strategaeth iechyd sylfaenol a chymunedol i ddatblygu a chyflawni dulliau arloesol o ddarparu gofal yn nes at adref, gan defnyddio cyfleusterau mewn ysbytai cymunedol fel 'canolfannau' gofal.
  - Cafodd mwy na deuparth (67 y cant) y cleifion eu cynnwys yn y categori cleifion sy'n gaeth i'w cartrefi, ond roedd y gyfran hon yn amrywio ar draws y timau, o 24 y cant i 93 y cant. Dywedodd staff wrthym nad oedd cleifion gartref weithiau pan fyddent yn ymweld. Er bod yr ymweliadau 'seithug' hyn i gyfrif am lai nag un y cant o amser y staff yn ystod yr wythnos archwilio, roedd hynny'n gyfwerth â 42 o oriau neu 100 o gleifion ychwanegol a allai fod wedi cael eu gweld yn ystod yr wythnos.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 47

---

## Cydgysylltu gofal



### **d. Mae llawer o gleifion yn derbyn sawl gwasanaeth gofal yn y gymuned, a thimau nyrsio ardal sy'n cydgysylltu neu'n rheoli achosion ar gyfer mwyafrif y gofal hwn.**

- Roedd bron i bumed ran (21 y cant) o'r cleifion yn y llwyth achosion nyrsio ardal yn derbyn gofal neu gyngor gan wasanaethau gofal iechyd cymunedol eraill, gan nyrsys arbenigol neu gan weithwyr gofal iechyd eraill. Dyma'r gwasanaethau y cyfeiriwyd atynt amlaf: podiatreg, gwasanaethau nyrsio Macmillan, nyrs diabetes arbenigol, timau iechyd meddwl cymunedol, gwasanaethau hyfywedd meinwe a gwasanaethau neu gyngor ymataliaeth. Y chwe gwasanaeth neu weithiwr proffesiynol uchod oedd i gyfrif am hanner y gwasanaethau ychwanegol.
- Derbyniai bron i hanner (48 y cant) y cleifion ofal wedi'i drefnu gan y gwasanaethau cymdeithasol.
- Timau nyrsio ardal sy'n cydgysylltu neu'n rheoli achosion ar gyfer deuparth y cleifion sy'n derbyn gwasanaethau gofal iechyd cymunedol lluosog. Os nad yw'r timau'n cydgysylltu'r gofal hwn, cyfeirir at feddygon teulu a nyrsys arbenigol fel cydgysylltwyr gofal.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 48

---

## Trefniadau ar gyfer monitro a gwella gwasanaethau



Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd rhan yn frwd yn flora nyrsio ardal Cymru gyfan, ond nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro gwasanaethau nyrsio ar lefel gorfforaethol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 49

---

## Monitro ac adrodd ar berfformiad



- a. Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau sylfaenol ar waith i fonitro gwasanaethau nyrsio ardal, ond mae'n cydnabod nad oes unrhyw ddangosyddion penodol ar gyfer perfformiad nac ansawdd a diogelwch, ac yn gweithio i fynd i'r afael â hyn.
- Nid oes cytundeb o hyd ynghylch mesurau neu ddangosyddion perfformiad mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch y gwasanaeth nyrsio ardal:
    - yn rhan o'r cyfarfodydd misol rhwng staff nyrsio ardal ac uwch reolwyr nyrsio, trafodir agweddau sy'n destun pryder, gan gynnwys cydymffurfio ag arfarniadau a chwynion a digwyddiadau.
  - Nid yw'r mecanweithiau i gasglu gwybodaeth am brofiadau neu ganlyniadau cleifion, ac adrodd ar hynny, wedi'u datblygu'n ddigonol. Dibynnir ar waith monitro cwynion a digwyddiadau er mwyn gwneud hynny:
    - mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio gyda'r Cyngor lechyd Cymuned er mwyn canfod ffyrdd i gasglu adborth gan gleifion drwy gynnal arolygon bodlonrwydd neu gyfweiliadau â chleifion; ac
    - yn y dyfodol, bydd archwiliad 'Hanfodion Gofal' Cymru gyfan yn darparu peth gwybodaeth am ansawdd a diogelwch a phrofiad y claf.
  - Nid oes unrhyw dystiolaeth fody Bwrdd na'u bwyllgorau'n trafod perfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal a'r moddy mae'n cyfrannu at wella canlyniadau cleifion, na symud gofal o leoliadau ac iwt i leoliadau yn y gymuned.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 50

---

## Nodi a rhannu arfer da



### **b. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu'n frwd at ddatblygu gwasanaethau nyrsio ardal ar raddfa genedlaethol, ac mae'r arweinwyr tîm yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth.**

- mae aelodau uwch y staff nyrsio yn cyfrannu'n frwd at fforymau Cymru gyfan yn gysylltiedig â'r gwasanaeth nyrsio ardal, a rhennir gwybodaeth drwy'r cyfarfodydd arweinydd tîm misol;
- cynhelir cyfarfod o'r arweinwyr tîm bob mis, lle rhennir gwersi a ddysgwyd yn sgil cwynion a digwyddiadau, a lle ceir cyfle i rannu arfer da a chyd-drafod materion; a
- mecanwaith ar gyfer rhannu yw'r cyfarfodydd tîm, ac maent wedi bod yn hollbwysig er mwyn llwyddo i gyflawni'r cynlluniau diweddar i aiddylunio'r gwasanaeth, drwy feithrin ymgysylltu a dealltwriaeth o'r angen am newid ymhlith aelodau'r tîm.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 51

---

## Materion i ymdrin â hwy



### **Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r canlynol:**

- achub ar y cyfle i adnewyddu manyleb y gwasanaeth;
- hyrwyddo a defnyddio'r meini prawf atgyfeirio sydd eisoes wedi'u sefydlu;
- defnyddio canfyddiadau archwilio i sicrhau cymaint â phosib o effeithiolrwydd wrth roi staff ar waith, ac fel llinell sylfaen er mwyn monitro cynnydd tuag at gynyddu'r amser a dreulir wyneb yn wyneb â chleifion;
- gan fod y newidiadau i strwythur y timau bellach wedi'u cwblhau, cymharu'r llwythi gwaith rhwng y timau;
- defnyddio offeryn dibyniaeth Cymru gyfan pan fydd ar gael er mwyn cynnal adolygiad gwrthrychol i weld a yw niferoedd a sgiliau'r gweithlu yn cyd-fynd ag anghenion y llwyth achosion;
- ymdrin â lefelau gwael o gydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol a gwella cyfraddau cydymffurfio drwy'r broses arfarnu ac adolygu cynlluniau datblygu;
- cytuno ar fesurau/dangosyddion perfformiad ar gyfer gwasanaethau ac ansawdd a diogelwch, gan gynnwys gwybodaeth an brofiad y claf y gellir ei defnyddio i fonitro ac adrodd yn lleol ac ar raddfa gorfforaethol; a
- datblygu systemau sy'n galluogi casglu data cyson ar y galw am wasanaethau, i gefnogi'r rheolaeth ar y llwyth achosion a chefnogi gwaith monitro ac adrodd.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 52

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)